

CYLCHLYTHYR LLANBEDR D.C. NEWSLETTER

Rhifyn/ Issue 10 Awst / August 2023



Gan y Cadeirydd

Croeso i rifyn mis Awst 2023 o Gylchlythyr y Cyngor Cymuned. Mae llawer o newidiadau'n digwydd yn yr ardal ar hyn o bryd. Mae adnewyddu Hen Eglwys San Pedr a'r tiroedd o'i chwmpas yn golygu fod ased gwerthfawr wedi'i ddychwelwyd i'n cymuned ar ôl blynyddoedd o esgeulustod. A chyn hir bydd gwaith yn dechrau ar y datblygiad tai newydd wrth ymyl y rheithordy, sef "St Peter's View" fel y'i gelwir ar hyn o bryd. Bu rhai'n beirniadu'r enw, ond ar hyn o bryd rwy'n argyhoeddedig, unwaith y bydd yr enw'n mynd gerbron tîm enwi a rhifo strydoedd Cyngor Sir Ddinbych, y bydd yn ddwyieithog.

Mae'r tri gwely blodau newydd o flaen Maes Derwen wedi dod â fflach o liw i ganol y pentref, a rhaid diolch i'r rhai sy'n gwirfoddoli i ofalu amdanynt. Mae'r Cyngor Cymuned yn gwneud ein gorau glas i ddod o hyd i ddarn o dir o fewn ein cymuned y gellir ei droi'n fan gwyrdd i bawb ei ddefnyddio, ac rydym yn parhau i fynd i'r afael â goryrru yn ein hardal.

O ran adloniant, mae'r Pwyllgor Cymdeithasol yn brysur yn trefnu digwyddiadau i chi'r gymuned eu mwynhau (gweler nes ymlaen yn y cylchlythyr).

From the Chair

Welcome to this August 2023 edition of the Community Council Newsletter. There is much change happening in the area at the moment. The refurbishment of Old St Peter's Church and grounds is a valuable asset returned to our community after years of neglect, and before long work will start on the new housing development next to the rectory currently named as "St Peter's View". There has been some criticism of this name, but to date I am assured that once that name goes before the Denbighshire County Council's Street Naming and Numbering Team it will be bi-lingual.

The three new flower beds in front of Maes Derwen are bringing a fresh burst of colour to the centre of the village: thanks are due to those who tend these beds voluntarily. The Community Council are redoubling our efforts to find a piece of land within our community that can be converted into a green space for all to use, and our efforts go on to tackle speeding within our area.

On the entertainments side, our Social committee is busy organising events for you, the community (see later in the newsletter).

Gellir gweld Adroddiad Blynyddol Cyngor Cymuned Llanbedr ar gyfer 2022/2023, sy'n manylu llawer o'r gwaith a wnaed ar eich rhan gan y Cyngor Cymuned, ar ein gwefan, - llanbedrddyffrynclwyd.org.uk.

Oeddech chi'n gwybod bod holl gyfarfodydd y Cyngor yn hybrid? Mae hyn yn golygu y gall y cyhoedd eu mynychu naill ai'n bersonol neu ar-lein, ac mae croeso mawr i chi wneud hyn. Os hoffech fynychu cyfarfod naill ai'n bersonol neu drwy'r cyfrwng hybrid, cysylltwch â Gwyn y Clerc ar ifandavies18@yahoo.co.uk neu ar 07887 955613. Mae yna sedd wag ar y Cyngor hefyd, felly byddwn yn croesawu enwebiadau.

Tim Baker, Cadeirydd.

Llanbedr Community Council's Annual Report for 2022/2023 which details much of the work undertaken on your behalf by the Community Council is available on our website llanbedrddyffrynclwyd.org.uk.

Did you know that all Council meetings are hybrid - that is to say can be attended by the general public either in person or online? You are more than welcome to attend. If you'd like to come along either in person or hybridly, please contact Gwyn the Clerk on ifandavies18@yahoo.co.uk or on 07887 955613. There's also a spare seat on the Council, so we welcome nominations.

Tim Baker, Chair.



Diweddariad am y Band Eang

Ym mis Ebrill, newidiodd Community Fibre Partnerships eu henw yn Fibre Community Partnerships. Felly FCPs ydi CFPs erbyn hyn!

Ers i ni ddechrau'r Bartneriaeth Gymunedol Ffibr (FCPs), mae cyfnewidfa ffôn Rhuthun wedi'i dynodi yn ardal ar wahân ar gyfer uwchraddio i ffibr llawn fel rhan o'r ymgyrch genedlaethol. Mae ardal y gyfnewidfa yn cynnwys Rhuthun gyfan ac yn cynnwys Llanbedr DC (yr ochr hon i'r Dyffryn, mae'r ardal yn ymestyn o Gellifor yn y gogledd i Bentrecelyn yn y De). Mae'r cyflwyniad yn golygu bod Openreach wedi addo uwchraddio 75% o'r eiddo yn ardal y gyfnewidfa. Ac yn ôl yr arfer, ardaloedd mwy gwledig, sef y 25% sy'n weddill, sy'n cael eu gadael allan.

Felly, mae Openreach yn uwchraddio rhai eiddo yn ein hardal ni i ffeibr llawn fel rhan o'u Huwchraddio'r Gyfnewidfa. Ac oherwydd y gorgyffwrdd rhwng Uwchraddio'r Gyfnewidfa a'r FCP, mae rhai pobl wedi derbyn e-byst dryslyd. Er enghraifft, os ydych chi'n rhan o'r 25% fydd yn cael eu gadael allan o Uwchraddio'r Gyfnewidfa, efallai eich bod wedi derbyn e-bost awtomataidd gan Openreach yn dweud nad yw ffibr llawn yn dod i'ch eiddo chi.

Fodd bynnag, rydym wedi cael cadarnhad, os wnaethoch chi gymryd rhan yn yr FCP a dychwelyd eich taleb

Broadband Report

In April, Community Fibre Partnerships were rebadged as Fibre Community Partnerships. So CFPs are now FCPs!

Since we started the Fibre Community Partnership, Ruthin telephone exchange has separately been designated an area for upgrade to full fibre as part of the national rollout. The exchange area includes the whole of Ruthin, and includes Llanbedr DC (on this side of the Vale, the area stretches from Gellifor in the north to Pentrecelyn in the South). The rollout means that Openreach promise to upgrade 75% of the premises within the exchange area. The 25% that are left out are normally more rural properties.

So, Openreach are upgrading some properties in our area to full fibre as part of their Exchange Upgrade. The overlap between the Exchange Upgrade and the FCP has caused some people to receive confusing emails. For example, if you are part of the 25% who are left out of the Exchange Upgrade, you may have received an automated email from Openreach saying full fibre is not coming to your property.

i DCMS, yna gallwch barhau i ddisgwyl cael eich uwchraddio i ffibr llawn. Mae'r FCP yn weithredol ac yn cael ei arolygu ar hyn o bryd. Mewn geiriau eraill, os na chewch eich uwchraddio drwy uwchraddio cyfnewidfa Rhuthun, dylech barhau i gael eich uwchraddio drwy'r FCP os wnaethoch chi ddychwelyd eich taleb.

O ran amserlennu, mae popeth yn dibynnu ar Openreach, sy'n sefydliad mawr iawn sy'n rhuthro i gyflwyno'r seilwaith yn genedlaethol. Ar gyfer rhai eiddo yn y pentref, mae'r wefan eisoes yn dweud bod Band Eang Ffibr Llawn Ultrafast 'ar gael rwan'! I eraill, dywed y wefan 'Adeiladu wedi'i gynllunio rhwng rwan a mis Rhagfyr-2026'.

Fedrwn ni ddim dylanwadu ar gyflymder y cyflwyniad, ond llongyfarchiadau i'r rhai sydd eisoes wedi'u cysylltu a gobeithio y bydd yr uwchraddio'n digwydd i bawb yn gynt yn hytrach nag yn hwyrach. I'r rhai sy'n aros, y cyfan y gallwn ei gynghori yw eich bod yn cadw llygad am e-byst gan Openreach ac yn dal i wirio'r wefan yn;

www.openreach.com/fibre-checker/my-products

Os byddwn yn cael unrhyw wybodaeth bellach, byddwn yn ei gynnwys yn y cylchlythyr nesaf ac yn ei rannu trwy Facebook.

Y Cyngorydd Nick Smith

However, we have had it confirmed that if you participated in the FCP and returned your voucher to DCMS, then you can still expect to be upgraded to full fibre. The FCP is active and currently undergoing a survey. In other words, if you are not upgraded through the Ruthin exchange upgrade, you should still be upgraded through the FCP if you returned your voucher.

In terms of timescales, we are at the mercy of Openreach and they are a very large organisation rushing to roll out infrastructure nationally. For some properties in the village, the website already says that Ultrafast Full Fibre Broadband is 'available now'! For others, the website says 'Build planned between now and Dec-2026'.

We are not able to influence the speed of the rollout, but congratulations to those already connected and hopefully the upgrades will happen for everyone sooner rather than later. For those waiting, all we can advise is that you keep an eye out for emails from Openreach and keep checking the website at;

www.openreach.com/fibre-checker/my-products

If we hear any more information we will include it in the next newsletter.

Councillor Nick Smith

Sylw i Fusnes Lleol: Pont Y Tŵr

Bydd llawer ohonoch yn adnabod Sioned Edwards neu wedi clywed am ei busnes, Pont Y Tŵr, sy'n cyflenwi blodau pur wahanol i'r ardal leol.

Es i weld Sioned yn ddiweddar ar ddiwrnod heulog a threulio awr neu ddwy hynod bleserus gyda hi, yn crwydro'r ardd fendigedig, yn darganfod hanes y busnes a sut yr arweiniodd bywyd hi at ei sefyllfa bresennol fel Monty Don Gogledd Cymru! (y mae hi fel finnau yn 'ffan' mawr).

Cyfeiriad post yr eiddo yw Plas Towerbridge felly wrth i mi nesáu doeddwn i ddim yn siŵr pa fath o adeilad y byddwn yn ei weld.

Local Business Spotlight: Pont Y Tŵr

Many of you will know Sioned Edwards or have heard of her business, Pont Y Tŵr, which supplies flowers with a difference to the local area.

I visited Sioned recently on a sunny day and spent a thoroughly enjoyable couple of hours with her, wandering through the fabulous garden, finding out about the history of the business and how life led her to this situation and a reputation for being the Monty Don of North Wales! (of whom she is a big fan as am I).

The postal address of the property is Plas Towerbridge so as I approached I was not too sure what kind of building

Gofynnais iddi pam y'i gelwid yn hynny a dywedodd fod yr enw yn dod oddi wrth berchennog y tŷ yn y 14eg ganrif, sef Robert Turbridge, a ddaeth yn Uchel Siryf Rhuthun.

Gofynnais i Sioned ddweud ychydig wrthyf am y teulu a'u cysylltiad â'r tŷ. Ei hen daid, Ellis Rowlands oedd y cyntaf i ddod i fyw ym Mhlas Towerbridge ac yna ei thaid a'i nain, Gwyn a Nia Rowlands. Bu'r eiddo'n wag am sawl blwyddyn nes i Sioned ac Iwan ynghyd â'u tri phlentyn ifanc symud o Fodfari 9 mlynedd yn ôl i gymryd yr awenau. Cyfarfu Sioned ag Iwan pan oeddynt yn yr ysgol gyda'i gilydd yn Ninbych ac ar hyn o bryd mae Iwan yn gweithio i'r Ymddiriedolaeth Natur.

I ddechrau, roeddynt yn byw mewn carafán ar y safle. Eu gorchwyl cyntaf oedd mynd i'r afael â'r ardd oedd wedi gordyfu'n llwyr, a chysylltodd S4C yn gofyn a allent ddilyn eu hynt. Gosodwyd camerâu o amgylch yr ardd a thynnwyd ffilm drwy gydol y flwyddyn i'w troi'n gyfres chwe wythnos. Dilynwyd hyn gyda chais am 'slot' rheolaidd yn Garddio a Mwy ar S4C am 8.25 pob nos Lun. A dyma pam y cyfeiriwyd at Monty Don!

Sawl blwyddyn yn ôl, roedd Sioned yn gweithio mewn Adran Gelf ar y Teledu cyn hyfforddi fel gweithiwr siop flodau. Roedd ganddi siop ym Mangor, a rhan helaeth o'r busnes oedd gwneud y trefniannau arferol ar gyfer priodasau. Bob hyn a hyn, roedd yn mynd yn ôl i weithio i'r Teledu, a thua 2014 treuliodd dri mis yn arbennig set Death

I would find. I asked her why it was called that and she said the name came from the owner of the house called Robert Turbridge in the 14th Century, who became the High Sheriff of Ruthin.

I asked Sioned to tell me a bit about the family and their connection to the house. Her great grandfather, Ellis Rowlands was the first to inhabit Plas Towerbridge and then her grandparents, Gwyn and Nia Rowlands took over. The property stood empty for several years until Sioned and Iwan moved from Bodfari, 9 years ago to take over, together with their three young children. Sioned met Iwan when at school together in Denbigh and he currently works for the Wildlife Trust. They lived in a caravan on site to begin with. They decided to tackle the very overgrown garden first and S4C approached them and asked if they could follow their progress. Cameras were duly installed around the garden and footage captured across the year and then made into a six-week series. After that came a request to do a regular slot on Garddio a Mwy (Gardening and More) S4C on Mondays 8.25pm, hence the references to Monty Don!

Sioned came from a TV Art Department background (many years ago) and then trained as a florist. She had a shop in Bangor where a large part of her business was the usual sort of arrangements for weddings. She returned to TV now and again, notably for three months in approximately



in Paradise, a ffilmiwyd yn Guadeloupe. A dyna'r hinsawdd drofannol yn rhoi pall ar ei steil arferol o drin blodau! Ac yna dyma bopeth yn stopio ym mis Mawrth 2020 gyda Cofid a'r Clo Mawr. Ar y pryd roedd ganddi un border a thwnnel polythen yng ngardd Plas Towerbridge yn llawn o flodau. Rhoddodd hysbyseb ar y cyfryngau cymdeithasol i weld a oedd gan unrhyw un ddiddordeb mewn 'blodau wedi'u tyfu adref i'w danfon yn lleol' ... ac fe oedd, wrth gwrs! Roedd blodau wedi'u danfon yn anrheg ddelfrydol ar adeg pan na chaniatawyd cyswllt personol. Mae'n dweud mai gan ei Mam y daw ei steil a'i hoffter o flodau neilltuol, gan fod yn well gan ei Mam drefnu blodau mewn ffordd fwy naturiol bob amser.

Wrth i'r busnes gynyddu, gofynnodd i'w brawd a allai gael rhan o gae'r fferm oedd wrth ochr yr ardd, a chrëwyd 'gardd dorri' go iawn. Ac yna trawsnewidiwyd 'yr Hofel', sef hen adfail ger y ffermdy lle'r oedd ei Thad yn arfer cadw'r cart ar gyfer y ceffyl. Bu heriau a pheth oedi oherwydd Cofid, ond o'r diwedd llwyddodd yr adeiladwyr i weithio mewn 'bybl' Cofid. Erbyn hyn roedd ganddi gwsmeriaid rheolaidd, yn cynnwys y Griffin (a chofiwch edrych yn fanwl y tro nesaf fyddwch chi yno!)

Ar ôl Cofid, mae priodasau yn cael eu cynnal unwaith eto ac mae Sioned yn rhedeg gweithdai ar gyfer grwpiau cymdeithasol yn yr Hofel sydd bellach yn le hyfryd i gynnal digwyddiadau. Mae hi wedi cynnal ambell ddigwyddiad pen-blwydd syrpreis

2014 on the set of Death in Paradise, filmed in Guadeloupe. Out went her usual style of flowers in the tropical climate! Then Covid and lockdown hit in March 2020 and everything stopped. At that time she had one border and a polytunnel in the garden of Plas Towerbridge where the flowers were blooming and so put an advert on social media just to see if there was any interest in 'home grown flowers delivered locally' .. and there was! Flowers were ideal as a delivered gift when personal contact was not allowed. She attributes her style and preference of flowers to her Mum who always leaned towards a more natural way of arranging flowers.

As the business grew, she asked her brother if she could extend into the farm field next to the garden and created a proper 'cutting garden'. Then came the transformation of a rundown building near to the farmhouse, affectionately called 'The Hovel', where her Dad had kept the horse drawn cart. Covid threw up challenges and some delays where the builders finally made progress working in a Covid 'bubble'. By now she had regular customers, which includes the Griffin (have a look next time you're in there!)

Post Covid, weddings are back on and Sioned runs workshops for social groups in the Hovel which is now a delightful space for the events. She's run a 'make and take home' surprise birthday event or two and hosts events at Christmas for customers to make a wreath or similar.

'gwneud a mynd adref' a sesiynau dros y Nadolig i gwsmeriaid wneud torch neu gyffelyb.

Wrth i'r sgwrs ddod i ben, dechreuodd Sioned feddwl am y dyfodol. Dywedodd fod ei threfniannau naturiol ar gyfer angladdau'n wirioneddol bwysig iddi gan fod y gwaelodion wedi eu gwneud naill ai o fwsogl, cardfwrdd neu bren ac mae'r holl beth yn bodduraddio ac felly'n mynd yn ôl i fyd natur. Mae'n gobeithio bod ei Nain a'i Thaid yn edrych i lawr ac yn cymeradwyo'r hyn mae hi ac Iwan wedi'i greu. Ac y bydd y plant yn parhau i garu'r ardd ac yn awyddus i'w chadw yn y teulu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

*Y Cyngorydd Jackie Holder
Is-Gadeirydd*

Sioned reflected on the future as we came to the end of the chat and told me her natural funeral arrangements were really important to her as the bases are made of either moss, cardboard or wood and the whole thing biodegrades and goes back to nature. She hopes her Nain and Taid approve, from above, of what she and Iwan have created and that their children continue to love the garden and will want to keep it in the family for future generations.

*Councillor Jackie Holder
Vice Chair*



Credyd llun: Callum Glass / Picture Credit: Callum Glass

Terfynau cyflymder 20mya yn dod i Lanbedr

O 17 Medi bydd y rhan fwyaf o'r ffyrdd yn Llanbedr sydd ar hyn o bryd â therfyn cyflymder o 30mya yn cael eu newid i 20mya.

Mae hyn oherwydd polisi Llywodraeth Cymru. Bwriad y polisi yw:

- Lleihau nifer gwrthdrawiadau ac anafiadau difrifol (a hefyd lleihau'r effaith ar y GIG o drin pobl sy'n cael eu hanafu).
- Annog mwy o bobl i gerdded a beicio o gwmpas eu cymunedau.
- Helpu i wella iechyd a lles.
- Gwneud y strydoedd yn fwy diogel.
- Diogelu'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae hanner y 5,570 o anafiadau o ganlyniad i wrthdrawiadau ar y ffyrdd yng Nghymru yn digwydd mewn parthau gyda chyfyngiad cyflymder o 30mya, a 40% o'r 1,131 o farwolaethau ac anafiadau difrifol ar y ffyrdd yn 2018 hefyd yn digwydd mewn ardaloedd 30mya.

Bydd y terfyn cyflymder newydd o 20mya yn digwydd ar rannau o'r A494 yn unig ac nid ar bob un. Mae Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, sy'n rheoli'r ffordd, wedi gwneud cais am eithriad. Mae hyn yn golygu y bydd y darn sy'n dod i lawr yr allt o ran uchaf y pentref yn aros ar 30mya o lle mae'r cyfyngiad yn cychwyn ar hyn o bryd, trwy'r

20mph speed limits are coming to Llanbedr

From 17th September most of the roads in Llanbedr that currently have a 30mph speed limit will be re-classified to 20mph.

This is thanks to a Welsh government policy that's designed to:

- Reduce the number of collisions and severe injuries (also reducing the impact on the NHS from treating the people who are injured).
- Encourage more people to walk and cycle in our communities.
- Help to improve our health and well-being.
- Make our streets safer.
- Safeguard the environment for future generations.

Half of the 5,570 injuries from road collisions in Wales happened in 30mph zones, with 40% of 1,131 road deaths and serious injuries in 2018 also occurring in areas with a 30mph limit.

The new 20mph speed limit will apply to parts of the A494, but not all. The North & Mid Wales Trunk Road Agency, which manages the road has applied for an exemption. This means that the section coming down the hill from the top of the village will remain at 30mph from where the limit starts now, through the hairpin bends and down to

bachdroeon ac i lawr i ychydig uwchben troad Lôn Cae Glas. Yma bydd y cyfyngder yn disgyn i 20 mya wrth fynd heibio Eglwys San Pedr, y Griffin, yr arosfan bws ac i lawr hyd at ben draw'r cyfyngder presennol.

Ar y cyfan, mae'r Cyngor Cymuned yn croesawu'r terfyn cyflymder newydd, gan y dylai wneud ein cymuned yn fwy dymunol a diogel i yrwyr, cerddwyr a beicwyr.

Rydym yn siomedig nad yw'r darn cyfan o'r gefnffordd drwy'r pentref wedi'i ddosbarthu fel 20mya. Ac rydym hefyd yn siomedig bod Cyngor Sir Ddinbych wedi gwrthod ystyried lleihau'r cyfyngiad cyflymder heibio Ysgol Llanbedr o 60mya.

Y Cyngorydd Ian Lloyd Williams

just above the Lon Cae Glas turning. At this point the limit will drop to 20mph past St Peters, the Griffin, the bus stop and down as far as the end of the existing speed limit.

Overall, the Community Council welcomes the new speed limit which should make our community more pleasant and safer for drivers, pedestrians and cyclists.

We are disappointed that the whole stretch of the trunk road through the village has not been classified as 20mph. And we are also disappointed that Denbighshire County Council has refused to consider reducing the speed limit past Ysgol Llanbedr from 60mph.

Councillor Ian Lloyd Williams



Pwyllgor Cymdeithasol Diweddariad Digwyddiadau

Mae'r Pwyllgor Cymdeithasol, sef y Cyngorwyr Jackie Holder (arweinydd) a Tim Baker ynghyd â'r aelodau cyfetholedig Rachel Ritchie a Ceri Johnson, wedi bod yn gweithio'n galed ar eich rhan.

Roedd 'Te Prynawn Mawr y Coroni' ar ddydd Llun 8fed o Fai yn llwyddiant ysgubol. Diolch i Grant Arian y Loteri fe wnaethom greu 'sbloets go iawn' i ychydig dros 60 o bobl yn Neuadd y pentref. Roedd sawl wyneb newydd yn y digwyddiad hwn ac roeddem yn falch iawn o'u gweld. Diolch i Tea Cups Café yn Rhuthun a ddarparodd fwyd ardderchog ynghyd â'r llestri a'r gweinyddwyr. Diolch hefyd i'm cyd-gyngorwyr nad ydynt ar y Pwyllgor Cymdeithasol, sef Dave Ritchie, Jonathan Latham a'i wraig Sue am eu cymorth 'tu ôl i'r llenni'.

Mae'r Boreau Coffi Dydd Gwener fu'n cael eu cynnal ddwywaith y mis dros gyfnod prawf chwe mis o fis Tachwedd i fis Mai bellach wedi dod i ben. Cafodd hyn ei ariannu'n allanol hefyd, y tro hwn drwy Gronfa 'Cymunedau Oed Gyfeillgar' Cyngor Sir Ddinbych. Er bod y niferoedd a fynychodd yn fach, rydym yn credu y gwerthfawrogwyd y ddarpariaeth. Mae'r Cyngor Cymuned yn teimlo fod hyn yn rhywbeth yr hoffem ei wneud eto, gan ddechrau yn Hydref 2023. Y gred yw y gallai weithio'n well ar fore Llun, ac rydym yn ystyried hyn.

Social Committee Upcoming Events

The Social Committee, consisting of Councillors Jackie Holder (lead) and Tim Baker together with co-opted members Rachel Ritchie and Ceri Johnson, have been hard at work on your behalf.

The 'Coronation Grand Afternoon Tea' on Monday 8th May was a great success. Thanks to a Lottery Funding Grant we were able to 'push the boat out' with some style for just over 60 people at the Village Hall. There were several new faces at this event which we were very pleased to see. My thanks go to Tea Cups Café in Ruthin who provided excellent food along with the china and waiting staff. Thanks also to my fellow Councillors (not on the Social Committee) Dave Ritchie, Jonathan Latham and his wife Sue for their 'behind the scenes' assistance.

The twice monthly Friday Coffee Mornings, run over a six-month trial from November to May have now ended. This was also externally funded, this time through Denbighshire County Council's 'Age Friendly Communities' Fund. Although the numbers attending were small we feel the provision was appreciated. The Community Council feel it's something we would like to do again, starting in the autumn of 2023. There is a view that it might work better on a Monday morning, which we are considering.

Felly, beth am weddill y flwyddyn? fydd yn addas ar gyfer Ein nod yw darparu amrywiaeth o ddigwyddiadau ar draws y flwyddyn ariannol fydd yn addas ar gyfer croestoriad o'r gymuned. Gan na chafodd y praecept ei gynyddu eleni byddwn yn dal i chwilio am gyllid allanol lle bynnag y bo modd.

Dyma'r digwyddiadau i gadw llygad amdanynt dros y misoedd nesaf:

Diwrnod Hwyl i'r Teulu

Diwrnod o Hwyl i'r Teulu yn rhad ac am ddim yn y Griffin ar ddydd Sadwrn 26 Awst (penwythnos Gŵyl y Banc) yn dechrau am 11 y.b. am dair awr. Bydd hyn yn debyg i ddigwyddiad y Jiwbilî a gafwyd yn 2022, gydag adloniant ar gyfer y plant. Rydym wedi gwneud cais i Gronfa Loteri Cymru a hoffem ddarparu pryd o fwyd, diod a hufen iâ i'r plant. Ac rydym yn aros i weld os fyddwn yn ei gael. Ond grant neu beidio, byddwn yn siŵr o drefnu rhywbeth, felly nodwch y dyddiad!

Llwybr Calan Gaeaf

Llwybr Calan Gaeaf i'r plant unwaith eto ar ddiwedd mis Hydref.



So what does the rest of this year hold? Our aim is to provide a range of events across the financial year, which cater for as many aspects of our community as possible. Due to the precept not being increased this year we will continue to look for external funding wherever possible.

Events to watch out for over the next few months are;

Family Fun Day

A free Family Fun Day at The Griffin on Saturday 26th August (Bank Holiday weekend) starting at 11am for 3 hours. This will be similar to the 2022 Jubilee one with children's entertainment laid on. We have applied to the Welsh Lottery Fund and would like to provide children with a meal, drink and ice-cream. We wait to see if it is awarded. Grant or not we will still run something that day so put it in your diaries!

Halloween Trail

Another Halloween Trail for the children at the end of October



Pwyllgor Cymdeithasol Diweddariad Digwyddiadau

Arddangosfa Tân Gwylt

Arddangosfa Tân Gwylt rhad ac am ddim gyda Pizza (pris wedi'i noddi) ddydd Sadwrn 4 Tachwedd.

Goleuadau Nadolig

I'w gynnal tua'r 1af o Ragfyr (dyddiad i'w gadarnhau).

Cinio Nadolig

Y Cinio Dolig blynyddol yn Neuadd y Pentref tua Rhagfyr 19 (dyddiad i'w gadarnhau).

Chwiliwch am y newyddion diweddaraf ar Facebook, Gwefan y Cyngor Cymuned a phosteri/taflenni yn Neuadd y Pentref, yr Eglwys a'r dafarn!

Fel arfer, rydym yn croesawu unrhyw adborth neu awgrymiadau gennych.

Y Cynghorydd Jackie Holder

07825 210458
jackieholder@gmail.com



Social Committee Upcoming Events

Fireworks Display

A free Fireworks Display with subsidised Pizza on Saturday 4th November.

Christmas Light Switch On

To be held around the 1st December (date to be confirmed)

Christmas Lunch

The annual Christmas Lunch at the Village Hall around 19th December (date to be confirmed).

Keep your eye on Facebook, the Community Council Website and posters/flyers in the Village Hall, Church and pub for updates!

As always, feedback and suggestions are welcomed.

Councillor Jackie Holder

07825 210458
jackieholder@gmail.com

Plannu coed yn Ysgol Llanbedr

Fel rhan o ymgyrch 'Fy Nghoeden i, Ein Coedwig ni', derbyniodd Ysgol Llanbedr goed ifanc i'w plannu ar hyd llinell ffens i annog bywyd gwylt a bioamrywiaeth.

Helpodd plant o'r Grŵp Eco i blannu'r coed ac fe wnaethant ddysgu mwy am y buddion y bydd y coed brodorol hyn yn dod i fywyd gwylt.

Cafodd y plant hadau blodau gwylt i'w hau hefyd, ond dim ond un rhan o'r garddio mae'r plant yn ei wneud ydi hyn. Maen nhw hefyd yn plannu ffrwythau a llysiau. Menter wych gan holl staff a phlant yr ysgol.



Tree Planting at Llanbedr School

As part of the My Tree Our Forest campaign Llanbedr School was given a number of trees to plant along a fence line to encourage wildlife and biodiversity.

Children from the Eco Group helped to plant these out and learn more about the benefits to wildlife these native trees will provide.

The children were also given some native Celtic wildflower seeds to sow. This is just one part of the work being done at the school. They are planting lots of things including fruit and vegetables, a great initiative by all the staff and children at the school.

Storiâu Llun

Goliau Maes Famau

Mae Ewan a Rhys yn chwarae pêl-droed yn rheolaidd gyda phlant lleol eraill ar y cae tu ôl i Faes Famau. Ond doedd y sefyllfa ddim yn ddelfrydol am nad oedd y goliau 'run maint. Bu Cronfa Gwella'r Gymuned yn hapus i helpu drwy gyfrannu pâr o goliau iawn.

Meinciau Newydd

Yn dilyn cais gan yr AHNE, mae'r Cyngor Cymuned wedi rhoi arian i gael chwe mainc newydd ger maes parcio Blwch Pen Barras. Cafodd bob un o'r placiau 'Er cof' oedd ar yr hen feinciau eu trosglwyddo i'r meinciau newydd.



Picture Stories

Maes Famau Goals

Ewan and Rhys regularly play football with other local kids on the field behind Maes Famau. But, it wasn't ideal due to mis-matched goals. The Community Improvement Fund was happy to step in to donate a pair of matching goals.



New Benches

After a request from the AONB, the Community Council has funded the replacement of six benches near the Blwch Pen Barras carpark.

All the 'in memory' plaques from the old benches were moved to the new ones.



Storiâu Llun

Gwelyau blodau Maes Derwen

Gwelyau blodau Maes Derwen yw'r cam diweddaraf yng nghynllun 5 mlynedd y Cyngor Cymuned i wella Mannau Gwyrdd Llanbedr. Diolch i Gyngor Sir Ddinbych am y grant o £500 a'r cyflenwad planhigion. Bydd gardd flodau gwyllt yn cael ei dechrau yn ystod yr Hydref a bydd bylbiau ar gyfer y Gwanwyn yn cael eu plannu.

Diolch i Heather Battison- Howard, Hugo Watts a Caroline Duckworth am eu Cymorth amhrisiadwy.



Old St Peter's Church

Mae Mynwent yr OSP yn lle o heddwch a llongyddwch, at ddefnydd trigolion Llanbedr. Rhan o sefydlu ei dyfodol cynaliadwy yw troi'r rhan fwyaf o'r Fynwent yn flodau gwyllt, gan ddisodli'r gweiriau trech. Rydym wedi cyflwyno planhigyn o'r enw Yellow Rattle (mae'n rhannol barasitig ar laswelltau gan leihau eu nerth), gan roi lle i flodau gwyllt sefydlu. Mae cynnydd wedi'i wneud, ond os oes gan unrhyw un brofiad o sut i gyflawni'r lluniau ar y rhyngwrdd, cysylltwch â mi.

*Y Cyngorydd Lyn Evans
Symudol 07523 321985.*

Picture Stories



Maes Derwen Flower Beds

The Maes Derwyn flowerbeds are the latest stage in the Community Council's 5 year plan to enhance Llanbedr's Green Spaces. Thanks to DCC for the £500 grant and supply of the plants. This autumn a wildflower garden will be started and spring bulbs planted. Thanks to DCC's Heather Battison-Howard, Hugo Watts and Caroline Duckworth for their invaluable help.

Old St Peter's Church

The OSP Churchyard is a place of peace and tranquility, for the use of Llanbedr residents. Part of establishing its sustainable future is turning most of the Churchyard over to wildflowers, replacing the very dominant grasses. We have introduced a plant called Yellow Rattle (it is partially parasitic on grasses reducing their vigour), allowing wildflowers the space to get established. Progress has been made, but if anyone has experience of how to achieve the pictures on the internet, please contact me.

*Councillor Lyn Evans
Mobile 07523 321985*

Cynghrair yr Haf Llandyrnog A'r Cylch

Mae Cynghrair yr Haf Llandyrnog a'r Cylch yn rhan amlwg o fywyd Dyffryn Clwyd a'r ardal gyfagos ers ei sefydlu ym 1926. Mae'r Gynghrair wedi'i chynnal bob blwyddyn yn ddi-ffael ar wahân i gyfnod yr Ail Ryfel Byd a'r pandemig a bydd timau o bentrefi lleol yn cystadlu'n frwd mewn gemau pêl-droed ffyrnig ond cyfeillgar, ddwywaith yr wythnos, dros gyfnod o 12 wythnos o'r Pasg tan fis Gorffennaf.

Yn ôl rheol gaeth a gaiff ei gorfodi'n llym, rhaid i'r chwaraewyr fyw yn yr ardal y mae'r tîm yn ei chynrychioli. Drwy hynny, caiff ymdeimlad o gymuned a chystadleuaeth rhwng y pentrefi eu meithrin. Mae chwaraewyr o bob oed yn cael chwarae ac, o ganlyniad, bydd bechgyn yn eu harddegau'n chwarae yn erbyn dynion yn eu pum degau hwyr (a'r tu hwnt!)

Gan fod y boblogaeth yn gymharol denau, mae Llanbedr yn ymuno â Gellifor a Llangynhafal i greu Clwb Pêl-droed Llangynhafal. Eleni, mae hanner y sgwad yn chwaraewyr o Lanbedr a nifer ohonynt wedi sgorio goliau pwysig.

Mae 12 tîm yn y gynghrair eleni. Cymharol siomedig oedd ein perfformiad ddechrau'r tymor, a hynny'n bennaf oherwydd bod chwaraewyr yn dal yn y brifysgol, neu'n dal i gymryd rhan yn chwaraeon y gaeaf. Yn fwy diweddar, a'r chwaraewyr wedi dychwelyd adref, mae'r canlyniadau wedi gwella'n arw, er na fydd y tîm yn cyrraedd uchelfannau 2019 pan ddringodd y tîm i frig y gynghrair!!!

Caiff y gemau eu chwarae ar nos Lun

Llandyrnog and District Summer League

The Llandyrnog and district football summer league has been a prominent feature in the Vale of Clwyd and surrounding area since it's establishment in 1926. Held annually, every year apart from WW2 and the pandemic, it involves teams from local villages competing in fiercely fought but friendly football matches, twice a week, over a 12 week period from Easter to July.

A strictly enforced rule states that players must actually live in the area their team represents, thus encouraging the feeling of community spirit and inter village rivalry. Players can be any age, thus enabling young teenagers to play against some in their late fifties (and beyond!)

Due to the relative sparse population, Llanbedr is combined with Gellifor and Llangynhafal to form Llangynhafal football club. This year half the squad are players from Llanbedr, many having scored important goals.

12 teams are in the league this year. We got off to a relatively slow start, largely due to players being away in university, or continuing to be involved in winter sports. More recently players have returned and results have been much better, though not quite achieving the dizzy heights of 2019 when we were league champions!!

Games are usually played on Mondays and Thursdays, and as we sadly don't have a suitable pitch in the area, our home games are played in Rhewl.

a nos lau fel arfer ond, gan nad oes gennym gae addas yn yr ardal, mae ein gemau cartref yn cael eu chwarae yn Rhewl. Mae'r rhaglen i'w gweld ar-lein. Yn ogystal â thîm y dynion, mae'r gynghrair yn ceisio creu cystadleuaeth i ferched. Eleni, bydd hyn yn cael ei chynnal ar ffurf twrnamaint undydd 7 bob ochr ond y gobaith yw ehangu hyn a chwarae gemau mwy rheolaidd ar ffurf cynghrair. Yn anffodus, dydyn ni ddim wedi medru dod â thîm at ei gilydd eleni.

Mae cystadlaethau hefyd i blant oedran cynradd, i bobl ifanc dan 16 ac mae cystadleuaeth tarian yn cael ei chynnal ddiwedd y tymor i dimau'r dynion.

Mae'r clwb bob amser yn chwilio am chwaraewyr a noddwyr newydd, ac rydym yn ddiolchgar iawn i Gyngor Cymuned Llanbedr am eu cefnogaeth eleni.

Er bod y tymor yn dirwyn i ben, mae cyfle o hyd i ddod draw i wylïo'r gemau ac ymuno yn yr hwyl. Mae'n ffordd dda o deimlo'n rhan o'r gymuned wych rydym yn rhan ohoni!

Jim Seddon

In addition to the mens team, the league are attempting to form a Ladies competition. This year this will comprise of a single day 7aside tournament, but the hope next year is to expand this to more regular games on a league basis. Unfortunately we have not been able to raise a team for this year's competition.

There are also competitions for primary school children, under 16's and a shield competition for the mens teams held at the end of the season.

The club is always looking for new players and sponsors, and we are very grateful to the Llanbedr Community council for their support this year.

Although this season is drawing to a close, there are still opportunities to come along to games as a spectator and get involved. Its a great way to feel part of this fantastic community in which we live!

Jim Seddon





Pont y tŵr

Freshly picked rustic garden style floral bouquets, grown and made to order from my garden in Llanbedr.

Tuswau blodau naturiol wedi eu tyfu, casglu a chreu yn arbennig i archebion yn ein gardd ni yn Llanbedr.

Free local delivery
Danfon yn lleol am ddim

Vouchers available / Talebau ar gael

www.pontytwr.co.uk



Plas Towerbridge * Ruthin * LL15 1UN * 07886 832145